# Canllawiau ar awdurdodi toddyddion echdynnu

Gofynion o ran awdurdodi toddyddion echdynnu (‘extraction solvents’) a’r hyn y mae angen i chi ei gyflwyno fel rhan o’ch cais.
Mae’r dudalen hon yn rhan o’r canllawiau ar wneud cais am gynhyrchion rheoleiddiedig.

Defnyddir toddyddion echdynnu wrth brosesu bwyd i helpu i ymdoddi a gwahanu rhannau o fwyd. Er enghraifft, gellir defnyddio toddyddion echdynnu penodol i gael gwared ar gaffein mewn coffi a the er mwyn cynhyrchu fersiynau heb gaffein. Mae'r toddydd echdynnu yn cael ei dynnu cyn i'r bwyd neu'r cynhwysyn terfynol gael ei ddefnyddio, ond gall gweddillion neu echdyniadau ( *derivatives*) na ellir eu hosgoi yn dechnegol aros yn y bwyd. Dyma pam ei bod yn bwysig sicrhau bod toddyddion echdynnu yn ddiogel.

Mae angen awdurdodi toddyddion echdynnu cyn y gellir eu rhoi ar y farchnad ym Mhrydain Fawr. Dim ond 'toddyddion echdynnu a ganiateir', fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd 2013, y gellir eu defnyddio i gynhyrchu bwyd a'i roi ar y farchnad ym Mhrydrain Fawr. Mae rhai eithriadau gan nad oes angen cymeradwyo toddyddion echdynnu a ddefnyddir wrth gynhyrchu ychwanegion bwyd, fitaminau neu unrhyw ychwanegion maethol eraill cyn eu defnyddio.

Y ddeddfwriaeth ddomestig sy'n llywodraethau’r defnydd o doddyddion echdynnu yn yr Alban yw Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Yr Alban) 2013.

## Awdurdodiadau newydd

I wneud cais i awdurdodi toddydd echdynnu newydd ym Mhrydain Fawr, defnyddiwch ein gwasanaeth gwneud cais am gynnyrch rheoleiddiedig. Gofynnir i chi ddefnyddio'r gwasanaeth i lanlwytho'r holl ddogfennau i gefnogi'ch cais, a fydd yn creu'ch coflen *(dossier)*. Nid oes unrhyw ffi am y cais.

Nid oes unrhyw ganllawiau penodol ar gyfer ceisiadau am doddyddion echdynnu. Fodd bynnag, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddilyn y canllawiau ar gyfer ychwanegion bwyd fel sy'n briodol.

Dylai eich cais esbonio'r angen technolegol am y toddydd echdynnu newydd, gan gynnwys y rheswm dros osod lefel weddilliol uchaf ar lefel benodol. Mae angen i chi hefyd ddangos na fyddai'r toddydd echdynnu newydd na'i ddefnydd yn peri pryder diogelwch.

## Ceisiadau parhaus

Os gwnaethoch gyflwyno cais am doddydd echdynnu i'r UE  ac nad oedd wedi'i awdurdodi i'w ddefnyddio cyn 1 Ionawr 2021 bydd angen i chi ail-gyflwyno'ch cais i ni gan ddefnyddio ein gwasanaeth gwneud cais am gynhyrchion rheoleiddiedig. Wrth gyflwyno'r cais, gofynnir i chi ddarparu'ch rhif cwestiwn Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA).

## Awdurdodiadau presennol

Os cafodd eich cynnyrch neu broses ei awdurdodi gan y Comisiwn Ewropeaidd (CE) cyn 1 Ionawr 2021 a bod y ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith cyn 1 Ionawr 2021, bydd yr awdurdodiad hwnnw'n parhau'n ddilys ym Mhrydain Fawr.

## Faint o amser fydd fy nghais yn ei gymryd?

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd ceisiadau'n cymryd o leiaf blwyddyn.

Bydd ansawdd y goflen a'r wybodaeth a ddarperir, yn effeithio'n sylweddol ar yr amser sydd ei angen ar gyfer asesu ac awdurdodi. Rydym yn annog ymgeiswyr i ddilyn y canllawiau a darparu’r holl wybodaeth ofynnol i sicrhau y gallwn ni brosesu'ch cais mor effeithlon â phosibl.

## Cymorth

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y weithdrefn neu’r broses awdurdodi, gallwch chi gysylltu â ni drwy regulatedproducts@food.gov.uk

## Gwneud cais am awdurdodiad

Gallwch ddefnyddio ein gwasanaeth ar-lein nawr i wneud cais am gynnyrch rheoleiddiedig.

### Cymru

Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013